**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

7 Ebrill 2022

Annwyl Mark

**Craffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: diweddariad (embargo 00.01 11 Ebrill 2022)**

Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 7 Chwefror 2022. Cytunwyd i gyhoeddi adroddiad byr yn tynnu sylw at rai o'r themâu allweddol a nodwyd yn ystod ein gwaith craffu. Mae copi o'r adroddiad hwn wedi'i amgáu er gwybodaeth i chi.

Hoffwn dynnu eich sylw'n benodol at ein hargymhelliad cyntaf:

> *Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal adolygiad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr Cymru. Gallai'r adolygiad hwn ystyried a oes modd sicrhau unrhyw arbedion maint drwy rannu rhai swyddogaethau cefn swyddfa a staff.*

Mae ein hadroddiad yn cydnabod bod gan bob Comisiynydd rolau a chyfrifoldebau gwahanol a bod anghenion o ran adnoddau yn amrywio yn unol â hynny, ond nodir nad oes eglurhad digonol i'r cyfiawnhad y tu ôl i'r dyraniadau adnoddau gwahanol, a bod angen craffu pellach ar hyn. Cytunwyd y byddai adolygiad o'r sefyllfa'n amserol ac, o ystyried cylch gwaith gweinyddiaeth gyhoeddus estynedig eich Pwyllgor, efallai mai chi sydd yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith hwn. Mae canfyddiadau ein hadroddiad yn ei gwneud yn glir bod gwahanol rolau a chyfrifoldebau Comisiynwyr Cymru wedi tyfu mewn modd tameidiog. Yn y pen draw, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw mynd ati'n well i gyfiawnhau sut y rhoddir adnoddau i bob Comisiynydd. Credwn mai adolygiad cyfannol gan eich Pwyllgor fyddai'r cyntaf o'i fath ac y byddai'n debygol o arwain at ddarganfyddiadau pwysig a gwersi ar gyfer penodi comisiynwyr yn y dyfodol.

Yn gywir



Jenny Rathbone
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament